Cyngor y Gweithlu Addysg
Education Workforce Council

Llywodraeth Cymru
Welsh Government

Sefydlu - trefniadau cyllido, olrhain a chofnodi

1. Cynnwys

Adran		Tudalen
1	Cynnwys	1
2	Perthnasedd y ddogfen hon	1
3	Cyflwyniad	2
4	Sefydlu	4
5	Sefydlu ar gyfer athrawon cyflenwi byrdymor	14
6	Cysylltiadau defnyddiol	20

2. Perthnasedd y ddogfen hon

Mae'r ddogfen hon yn berthnasol i'r cynulleidfaoedd canlynol:

- Athrawon Ysgol Newydd Gymhwyso/athrawon ysgol sy'n ymgymryd â sefydlu
- Mentoriaid Sefydlu
- Penaethiaid
- Cydlynwyr datblygiad proffesiynol/swyddogion datblygu staff
- Bwrsariaid/rheolwyr busnes ysgolion
- Gwirwyr Allanol
- ALlau yn eu rôl fel y corff priodol yn y broses sefydlu

3. Cyflwyniad

Mae sefydlu statudol yn ofyniad yng Nghymru ers mis Medi 2003. Ar ran Llywodraeth Cymru, mae Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA) yn gyfrifol am nifer o weithgareddau gweinyddol yn gysylltiedig â'r rhaglen sefydlu fel a ganlyn:

- casglu, coladu a chynnal ffynhonnell ddata ganolog ar gyfer athrawon sy'n ymgymryd â'r rhaglen sefydlu, i gynnwys cyflogaeth yr athro wrth iddo symud drwy sefydlu, cofnod o'i fentor sefydlu a'i wiriwr allanol, a chofnod o'r sesiynau sefydlu a gwblhawyd;
- rhannu'r wybodaeth hon gyda'r partïon sy'n hollbwysig wrth ddarparu'r rhaglen sefydlu drwy gyfleuster CGA ar y we. Ymhlith y partïon hyn mae'r ANG, mentor sefydlu'r ANG a'i wiriwr allanol, y cydlynydd sefydlu yn yr ALl fel y corff priodol ym maes sefydlu;
- gweinyddu cyllid sefydlu i ysgolion;
- neilltuo gwiriwr allanol ar gais y consortia;
- cynnal a darparu dull cyrchu'r proffil sefydlu statudol ar-lein drwy gyfleuster CGA ar y we;
- cyhoeddi tystysgrifau sefydlu ar sail canlyniadau sefydlu a ddarperir gan y corff priodol;
- gwrando ar apeliadau Sefydlu*.

Mae'r ddogfen hon yn nodi'r camau gweithredu y mae gofyn i bob parti perthnasol eu cymryd er mwyn sicrhau bod CGA yn gallu cyflawni'r cyfrifoldebau hyn. *Nid yw arweiniad ar wrando ar apeliadau sefydlu yn rhan o'r ddogfen hon ond gellir dod o hyd iddo yn yr adran 'Addasrwydd i Ymarfer' ar wefan CGA yn www.cga.cymru.

Mae'n bwysig nodi nad oes gan CGA unrhyw orchwyl i ddarparu cyngor ac arweiniad mewn perthynas â dulliau cyflwyno'r rhaglen sefydlu na'i chynnwys ac felly ni ddylid darllen y ddogfen hon yn unigol.

Gellir dod o hyd i wybodaeth am y trefniadau sefydlu gan gynnwys cyrchu'r rheoliadau sefydlu, cylchlythyr arweiniad Llywodraeth Cymru a'r safonau proffesiynol ar gyfer addysgu ac arweinyddiaeth ar wefan Dysgu Cymru yn https://hwb.llyw.cymru.

Mae dolenni i'r dogfennau hyn i'w cael yn adran sefydlu gwefan CGA yn www.cga.cymru.

Os oes angen cyngor neu gymorth ychwanegol arnoch dylech gysylltu â'r cydlynydd sefydlu yn eich corff priodol (ALl); mae manylion cyswllt ar gael yn adran sefydlu gwefan CGA yn www.cga.cymru.

Mae arweiniad Llywodraeth Cymru i gynorthwyo wrth gwblhau'r proffil sefydlu statudol, sy'n nodi'r gofynion ar gyfer pob adran gan gynnwys y bobl sy'n gyfrifol am bob adran a'r terfynau amser i'w cwblhau, ar gael ar y tudalennau gwe sy'n ategu'r proffil sefydlu ar-lein. Dim ond unwaith mae'r ANG wedi lawrlwytho'i broffil sefydlu y gellir cyrchu'r ddogfen hon; gellir dod o hyd i'r ddogfen o fewn tudalen olygu unrhyw adran o'r proffil sefydlu. Mae hefyd yn werth nodi bod cylchlythyr arweiniad Llywodraeth Cymru ar gael ar waelod tudalen gyntaf y proffil sefydlu ar-lein.

Mae arweiniad i gynorthwyo wrth gwblhau'r proffil sefydlu statudol ar gael ar y tudalennau gwe sy'n ategu'r proffil sefydlu ar-lein. Gellir cyrchu'r ddogfen hon dim ond pan fydd yr ANG wedi mewngofnodi i'w broffil sefydlu trwy'r Pasbort Dysgu Proffesiynol.

4. Sefydlu

4.1 Cefndir yr adran hon

Mae'r adran hon yn berthnasol i bob cyfnod sefydlu yr ymgymerir ag ef tra mewn cyflogaeth reolaidd ni waeth a yw'r gyflogaeth honno ar sail barhaol, dros dro neu fel athro cyflenwi. Am wybodaeth am sefydlu ar gyfer athrawon cyflenwi byrdymor dylid cyfeirio at adran 5.

Mae'r adran hon yn darparu gwybodaeth gam wrth gam i sicrhau:

- bod data cychwynnol yn cael ei gasglu, ei goladu a'i ddarparu gan GCA i'r partïon perthnasol er mwyn hwyluso dechrau/parhau cyfnod sefydlu'r ANG;
- bod gwiriwr allanol yn cael ei neilltuo i'r ANG;
- bod pob parti'n gallu cyrchu proffil sefydlu ar-lein yr ANG drwy gyfleuster CGA ar y we;
- bod ysgolion yn gallu cyrchu cyllid sefydlu;
- bod data cywir yn cael ei gofnodi mewn perthynas â nifer y sesiynau mae ANG yn eu cwblhau.

Mae pob cam yn dynodi:

- y corff a/neu'r unigolyn sy'n gyfrifol am y cam;
- y camau gweithredu y mae'n rhaid eu cwblhau, gan gynnwys cwblhau a chyflwyno'r ddogfennaeth angenrheidiol;
- y terfyn amser ar gyfer cwblhau'r cam, os yn briodol;
- manylion y corff y dylid anfon unrhyw waith papur neu wybodaeth ato, os yn briodol;
- gwybodaeth bwysig arall, os yn briodol.

Mae camau 1, 4 a 5 yn ymwneud yn benodol â cham gweithredu ar gyfer y personél perthnasol yn yr ysgol; mae'n hanfodol bod ysgolion yn cydymffurfio â'r camau gweithredu a'r terfynau amser; bydd methu â gwneud hynny'n arwain at y canlynol:

- bydd yr ysgol yn colli allan ar gyllid sefydlu;
- ni fydd CGA/y consortiwm yn gallu neilltuo gwiriwr allanol erbyn hanner tymor cyntaf cyfnod sefydlu athro;
- ni fydd CGA yn gallu cynnal cofnod cywir o'r sesiynau sefydlu a gwblhawyd, a allai, yn ei dro, gael effaith andwyol ar raglen sefydlu athro.

4.2 Y camau

Cam 1 - Ar ddechrau cyfnod sefydlu	Hysbysu CGA
Corff/unigolion sy'n gyfrifol	**Ysgol/Pennaeth/mentor sefydlu/ANG**
Pa gamau?	Rhaid cwblhau'r canlynol: **Ffurflen Hysbysu Sefydlu** Wrth gwblhau'r ffurflen dylid sicrhau: • bod pob parti'n darllen pob adran o'r ffurflen yn drylwyr cyn ei chwblhau; • bod pob adran o'r ffurflen yn cael ei chwblhau'n gywir ac yn gyflawn; rhaid darparu gwybodaeth am y contract; • bod manylion y mentor sefydlu a fydd yn gyfrifol am gwblhau adrannau penodol o'r proffil sefydlu statudol yn cael eu darparu; caiff yr wybodaeth hon ei defnyddio i ddarparu dull cyrchu i'r mentor i broffil sefydlu'r athro; • rhaid i'r Pennaeth, y mentor sefydlu a'r ANG lofnodi'r datganiad.
Erbyn pryd?	O fewn 10 diwrnod gwaith o ddechrau'r cyfnod sefydlu ar yr hwyraf. Yn unol â chanllawiau Llywodraeth Cymru, mae'n rhaid i bob cyfnod cyflogaeth o un sesiwn ysgol neu fwy gyfrif tuag at sefydlu, felly, yn dibynnu pryd mae'r ANG yn dechrau cyflogaeth yn yr ysgol, gallai dyddiad y terfyn amser ar gyfer cyflwyno'r wybodaeth hon ddisgyn ar unrhyw adeg yn ystod tymor academaidd.
I ble?	Tîm Datblygiad Proffesiynol a Chyllid CGA Gellir dychwelyd y ddogfen drwy'r post neu'r ffacs; fel arall os oes gan yr ysgol y cyfleuster i sganio fersiwn wedi'i lofnodi, gellir ei dychwelyd drwy'r e-bost i datblygiadproffesiynol@cga.cymru.
Gwybodaeth bwysig arall	Dylid gwneud yr hysbysiad cychwynnol hwn i CGA yn unig ac nid i unrhyw gorff arall. Mae CGA yn gyfrifol am hysbysu'r holl bartïon eraill sy'n gysylltiedig â'r rhaglen drwy gyfleuster CGA ar y we.

	Os yw'r ANG wedi'i gyflogi yn yr un ysgol drwy gydol ei gyfnod sefydlu heb unrhyw hoe yn ei gyflogaeth, dim ond unwaith y bydd angen cwblhau Cam 1, a hynny ar ddechrau'r cyfnod sefydlu. Os yw'r ANG yn symud ysgol neu'n cael hoe yn ei gyflogaeth, bydd angen cwblhau Cam 1 ar ddechrau pob cyfnod sefydlu. Noder: nid cais i gofrestru gyda CGA yw'r hysbysiad hwn. Am wybodaeth bellach mewn perthynas â chofrestru, ewch i adran Cofrestru a Chymwysterau gwefan CGA yn: www.cga.cymru.

Cam 2	**Gwiriadau cymhwystra a neilltuo gwiriwr allanol**
Corff/unigolion sy'n gyfrifol	Gwaith CGA
Pa gamau?	Pan dderbynnir y **Ffurflen Hysbysu Sefydlu:** • Gwirio bod yr ANG yn ateb y cymhwystra meini prawf ar gyfer sefydlu fel a ganlyn: **Rhaid i'r ANG:** ◦ feddu ar Statws Athro Cymwysedig (SAC); ◦ fod wedi'i gofrestru gyda CGA yn y categori athro ysgol; ◦ peidio â bod wedi'i eithrio rhag y gofyniad i gwblhau sefydlu neu beidio â bod wedi cwblhau sefydlu'n barod. • Gwirio a oes gan y mentor sefydlu a gofnodwyd ar y ffurflen gyfrif mentor sefydlu gyda CGA er mwyn cyrchu proffil sefydlu statudol ar-lein yr ANG. Lle nad oes cyfrif yn bodoli bydd CGA yn creu cyfrif ar gyfer y mentor. • Neilltuo gwiriwr allanol i'r ANG.
Erbyn pryd?	**Neilltuo gwiriwr allanol** Lle bydd Ffurflen Hysbysu Sefydlu yn ymwneud â dechrau tymor yr hydref a derbynnir y ffurflen gan yr ysgol o fewn y terfynau amser gofynnol, caiff gwiriwr allanol ei neilltuo erbyn hanner tymor yr hydref. Ar adegau eraill yn ystod y flwyddyn academaidd caiff gwiriwr allanol ei neilltuo fel arfer o fewn 10 diwrnod

	gwaith o dderbyn y ffurflen neu ar dderbyn y wybodaeth gan y consortiwm.
Gwybodaeth bwysig arall	**Neilltuo gwiriwr allanol** Y consortiwm rhanbarthol neu'r CGA os gofynnir gan y consortiwm sydd yn neilltuo gwirwyr allanol i ANG yn unol â meini prawf paru a osodwyd gan y consortiwm.

Cam 3	**Hysbysu partïon perthnasol**
Corff/unigolion sy'n gyfrifol	Gwaith CGA
Pa gamau?	Anfon ymateb ysgrifenedig at yr ANG, gyda chopi i'r mentor sefydlu a'r pennaeth, (drwy'r post neu'r e-bost), yn cadarnhau: • canlyniad y gwiriadau cymhwystra; • manylion y gwiriwr allanol* sydd wedi'i neilltuo i'r ANG; • y camau y mae angen i'r ANG eu cymryd i gyrchu/mewngofnodi i'w broffil sefydlu statudol ar-lein trwy'r Pasbort Dysgu Proffesiynol cyn y gall unrhyw barti arall perthnasol gyrchu'r proffil sefydlu neu gyfrannu ato. Bydd CGA yn rhannu gwybodaeth sefydlu'r ANG gyda'r: • gwiriwr allanol; • cydlynydd sefydlu'r ALl fel y corff priodol ym maes sefydlu. Dylid cyfeirio at adran 4.3, tudalen 9, am wybodaeth bellach mewn perthynas â'r ffordd y bydd CGA yn cofnodi ac yn rhannu'r wybodaeth hon gyda phartïon perthnasol.
Erbyn pryd?	O fewn 25 diwrnod i dderbyn y Ffurflen Hysbysu Sefydlu.
Gwybodaeth bwysig arall	*Os yw CGA wedi methu â chadarnhau manylion y gwiriwr allanol yn yr ohebiaeth hon, yna caiff e-bost ei anfon at yr ysgol yn ddiweddarach i gadarnhau'r wybodaeth hon. Os bu gofyn i CGA greu cyfrif newydd ar gyfer mentor sefydlu, caiff cadarnhad o fanylion y cyfrif ei anfon mewn gohebiaeth ar wahân, yn uniongyrchol at y mentor sefydlu.

Cam 4	**Newidiadau i'r wybodaeth a ddarperir ar y Ffurflen Hysbysu Sefydlu**
Corff/unigolion sy'n gyfrifol	**Ysgol/Pennaeth/mentor sefydlu/ANG**
Pa gamau?	Rhaid hysbysu CGA mewn perthynas ag unrhyw newidiadau i'r manylion a ddarperir ar y Ffurflen Hysbysu Sefydlu.
Erbyn pryd?	Ar unwaith

Cam 5 - Ar ddiwedd pob tymor academaidd pan fu'r athro yn ymgymryd â sefydlu	**Hawlio cyllid sefydlu**
Corff/unigolion sy'n gyfrifol	Ysgol/Pennaeth/Mentor sefydlu/ANG
Pa gamau?	Rhaid cwblhau'r canlynol: **Ffurflen Hawlio Cyllid Sefydlu** Wrth gwblhau'r ffurflen dylid sicrhau: • bod pob adran o'r ffurflen yn cael ei chwblhau'n gywir ac yn gyflawn; rhaid darparu gwybodaeth am y contract a'r sesiynau; • telir sylw arbennig i Adran 3 y ffurflen hon, am mai hon yw'r wybodaeth y bydd CGA yn ei defnyddio i ryddhau cyllid; • rhaid i'r ANG, y mentor sefydlu a'r pennaeth lofnodi'r datganiad; mae llofnod y pennaeth hefyd yn dilysu bod yr ANG wedi cael ei gyflogi fel athro ar gyfer nifer y sesiynau a restrir ar y ffurflen. • yn absenoldeb y pennaeth, mae'n rhaid i'r datganiad gael ei lofnodi gan aelod o'r Uwch Dîm Arwain, a dylai cadarnhad o hyn gael ei gynnwys ar y ffurflen
Erbyn pryd?	Ar ddiwedd pob tymor academaidd pan fo'r athro'n ymgymryd â sefydlu yn yr ysgol. Os yw'r ysgol yn methu â chydymffurfio â'r dyddiad hwn, ni fydd CGA yn rhyddhau'r cyllid i'r ysgol.
I ble?	Tîm Datblygiad Proffesiynol a Chyllid CGA

	Gellir dychwelyd y ddogfen drwy'r post neu'r ffacs; fel arall os oes gan yr ysgol y cyfleuster i sganio fersiwn wedi'i lofnodi, gellir ei dychwelyd drwy'r e-bost i datblygiadproffesiynol@cga.cymru.
Gwybodaeth bwysig arall	Bydd angen cwblhau'r cam hwn ni waeth am y canlynol: • pryd cychwynnodd yr ANG ei gofnod sefydlu; • cyfran contract cyflogaeth yr ANG; • faint o sesiynau sydd wedi'u cwblhau gan yr ANG yn ystod y tymor academaidd.

Cam 6	**Rhyddhau cyllid sefydlu**
Corff/unigolion sy'n gyfrifol	Gwaith CGA
Pa gamau?	Gwirio'r Ffurflen Hawlio a rhyddhau'r swm priodol o gyllid i'r ysgol. Bydd CGA hefyd yn cofnodi nifer y sesiynau a gwblhawyd gan yr ANG ac yn rhannu'r wybodaeth hon gyda'r: • gwiriwr allanol; • cydlynydd sefydlu'r ALl fel y corff priodol ym maes sefydlu. Dylid cyfeirio at adran 4.3, tudalen 9 am fwy o wybodaeth mewn perthynas â'r ffordd y bydd CGA yn cofnodi ac yn rhannu'r wybodaeth hon.
Erbyn pryd?	O fewn 25 diwrnod i dderbyn y Ffurflen Hysbysu Sefydlu/gwybodaeth lawn. Lle darperir gwybodaeth anghyflawn, bydd CGA yn methu â phrosesu'r ffurflen a bydd hyn yn arwain at oedi cyn rhyddhau cyllid.

Cam 7 - ar ôl i'r athro gwblhau tri thymor neu 380 sesiwn o sefydlu	**Hysbysu o ganlyniad y sefydlu**
Corff/unigolion sy'n gyfrifol	Gwaith y corff priodol
Pa gamau?	Gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch a yw'r ANG wedi llwyddo, methu neu a oes angen ymestyn ei gyfnod sefydlu ar sail yr wybodaeth/tystiolaeth a gofnodwyd ar ei broffil sefydlu.

	Hysbysu CGA o ganlyniad y sefydlu.
Erbyn pryd?	Mae terfynau amser ar gyfer cwblhau'r camau gweithredu hyn wedi'u nodi yng nghylchlythyr arweiniad Llywodraeth Cymru sydd ar gael ar wefan Dysgu Cymru yn https://hwb.llyw.cymru. Noder: mae CGA yn gwneud cais ffurfiol i ganlyniadau sefydlu gael eu cyflwyno gan y corff priodol unwaith pob tymor academaidd; fodd bynnag, mae gan y corff priodol y cyfleuster i gyflwyno canlyniadau i CGA ar unrhyw adeg.

Cam 8	**Cofnodi gwybodaeth a chyhoeddi tystysgrif**
Corff/unigolion sy'n gyfrifol	Gwaith CGA
Pa gamau?	Diweddaru cofnod yr ANG ar y Gofrestr Ymarferwyr Addysg gyda chanlyniad y sefydlu ac os yn briodol, cyhoeddi tystysgrif sefydlu i'r ANG i'r cyfeiriad post a gofnodwyd. Dylid cyfeirio at adran 4.3, tudalen 9 am fwy o wybodaeth mewn perthynas â'r ffordd y bydd CGA yn cofnodi ac yn rhannu'r wybodaeth hon.
Erbyn pryd?	O fewn 25 diwrnod i dderbyn canlyniad y sefydlu gan y corff priodol.

4.3 Cyfleuster sefydlu CGA ar y we gan gynnwys y proffil sefydlu statudol

Fel y nodir yn arweiniad Llywodraeth Cymru ar gyfer sefydlu mae nifer o bartïon yn gysylltiedig â rhaglen sefydlu'r ANG. Mae angen i'r partïon hyn weld a chyfnewid gwybodaeth benodol mewn perthynas â sefydlu'r ANG. Bydd yr wybodaeth yn cynnwys manylion cyflogaeth yr ANG yn ystod y sefydlu, nifer y sesiynau a gwblhawyd, manylion y mentor sefydlu a'r gwiriwr allanol a neilltuwyd i gynorthwyo'r ANG a phroffil sefydlu statudol yr ANG.

Mae CGA yn darparu cyfleuster ar y we sy'n galluogi'r wybodaeth hon i gael ei chynnal a'i storio'n ddiogel ar-lein. Ar gyfer ANG a ddechreuodd sefydlu o fis Medi 2014 ymlaen mae'r cyfleuster hwn yn cynnwys y proffil sefydlu statudol ar-lein (a chofnod y gwiriwr allanol). Ar gyfer ANGau a ddechreuodd sefydlu o fis Medi 2016 ymlaen mae'r cyfleuster yn cynnwys y proffil sefydlu ar-lein diwygiedig.

Gyda'r awdurdod priodol, caiff yr ANG, mentor sefydlu, gwiriwr allanol yr ANG a'r corff priodol fynediad diogel i'r cyfleuster hwn. Mae hyn yn golygu, ar gyfer ANG a ddechreuodd sefydlu o fis Medi 2014 ymlaen na fydd gofyn e-bostio rhannau perthnasol y proffil sefydlu at y corff priodol.

Caiff manylion ynghylch sut i gyrchu'r cyfleuster hwn eu darparu o fewn y gydnabyddiaeth ysgrifenedig at yr ANG a'r mentor sefydlu ar ôl derbyn yr hysbysiad sefydlu cychwynnol; fel arall mae'r wybodaeth hon ar gael ar adran sefydlu gwefan CGA.

Mae'n bwysig nodi'r canlynol mewn perthynas â'r wybodaeth y gellir ei chyrchu drwy wasanaethau ar-lein CGA:

- mae'r ffurflenni ar gyfer cyrchu cyllid sefydlu (y Ffurflen Hysbysu Sefydlu a'r Ffurflen Hawlio Cyllid Sefydlu) yn gyfan gwbl ar wahân i'r dogfennau a gedwir yn y proffil sefydlu ar-lein ac, ar hyn o bryd, ni ellir cyflwyno'r ddogfennaeth gyllid i CGA drwy ei gyfleuster ar y we;

- mae CGA yn cadw cofnod o nifer y sesiynau a gwblhawyd gan ANG tuag at eu sefydlu er mwyn cynorthwyo'r holl bartïon i allu olrhain yr wybodaeth hon. Mae'r wybodaeth am sesiynau a gofnodwyd gan yr ysgol ac a gyflwynwyd i CGA ar y Ffurflen Hawlio Cyllid Sefydlu unwaith y tymor academaidd yn cael ei dilysu gan y Pennaeth sy'n llofnodi'r datganiad ar y ffurflen, ac nid oes angen ei chofnodi mwyach yn adran 4 y proffil sefydlu. Mae'n bwysig nodi, fodd bynnag, nad yw'r wybodaeth am sesiynau sefydlu cyflenwi byrdymor a gofnodwyd gan CGA wedi cael ei dilysu. Mae gofyn i ANG gadw cofnod wedi'i wirio o'u sesiynau cyflenwi byrdymor yn adran '**cofnod o bresenoldeb'** o'r proffil sefydlu (y dylid ei gynnal oddi ar-lein a'i lwytho i'r proffil ar-lein yn unol â'r terfynau amser gofynnol)

- CGA sydd wedi datblygu'r proffil sefydlu ar-lein a CGA sy'n ei gynnal. Dylid cyfeirio unrhyw broblemau neu anawsterau a geir neu unrhyw adborth gan ddefnyddwyr mewn perthynas â gwelliannau i'r proffil sefydlu ar-lein at datblygiadproffesiynol@cga.cymru. Fodd bynnag, ni all CGA gynnig arweiniad na chyngor am gynnwys gofynnol y proffil sefydlu ar-lein; dylid cyfeirio ymholiadau o'r fath yn y lle cyntaf at y mentor sefydlu, y gwiriwr allanol neu'r cydlynydd sefydlu yn y corff priodol;

- gellir dod o hyd i arweiniad ar gyfer defnyddio'r cyfleuster hwn yn y tudalennau sy'n ategu'r proffil sefydlu ar-lein ac felly, dylid darllen y testun sy'n atodi pob un o'r tudalennau hyn yn drylwyr wrth ei ddefnyddio a chyn cwblhau neu gymeradwyo unrhyw un o'r dogfennau.

4.4 Manylion allweddol mewn perthynas â chyllido sefydlu

4.4.1 Dosbarthu cyllid sefydlu i ysgolion, gan gynnwys dull talu

- Lefel y cyllid yw £3,750 fesul ANG fesul cyfnod sefydlu. Darperir cyllid i ysgolion, gan Lywodraeth Cymru, er mwyn cynorthwyo i ddarparu hawl statudol ANG i ostyngiad o 10% oddi ar eu hamserlen (ar ben eu hamser CPA).

- Caiff cyllid ei ryddhau'n wrtholygol ar ddiwedd pob tymor academaidd pan fo'r ANG yn ymgymryd â sefydlu. Bydd hyn yn digwydd ni waeth pa gyfran o'r contract mae'r ANG wedi gweithio na faint o sesiynau sydd wedi'u cwblhau yn ystod y tymor academaidd. Er enghraifft:

    - os yw'r ANG yn cwblhau tymor llawn ar gontract amser llawn bydd yr ysgol yn derbyn taliad o £1,250.00;

    - os yw'r ANG yn dechrau cyfnod sefydlu adeg yr hanner tymor, ar ddiwedd tymor academaidd cyntaf sefydlu'r ANG, bydd yr ysgol yn derbyn taliad o £625.00;

    - os yw'r ANG yn dechrau cyfnod sefydlu ar unrhyw adeg arall yn ystod y tymor academaidd bydd CGA yn cyfrifo swm y cyllid i'w ryddhau fel a ganlyn. £3,750/380 sesiwn x nifer y sesiynau a gwblhawyd gan yr ANG yn ystod y tymor academaidd.

- Ar yr amod bod yr wybodaeth ofynnol wedi'i chyflwyno yn unol â'r terfynau amser gofynnol, caiff cyllid ei ryddhau ni waeth beth yw cynnydd yr athro yn ystod sefydlu.

- Mae'r dull a ddefnyddir gan CGA i ryddhau cyllid sefydlu i ysgolion yn dibynnu ar statws cyfrif cyllideb yr ysgol:

    - os yw'r ysgol yn 'ysgol heb lyfr siec' bydd CGA yn rhyddhau cyllid i'r ysgol drwy'r dull talu a bennir gan Adran Gyllid yr ALl. Caiff ysgolion eu hysbysu'n ysgrifenedig pan fydd taliad sefydlu sy'n gysylltiedig â'r ysgol yn cael ei ryddhau gan CGA;

    - os yw'r ysgol yn 'ysgol â llyfr siec' bydd CGA yn rhyddhau cyllid i'r ysgol drwy siec, oni bai bod yr ysgol yn ei hysbysu i'w wneud drwy system BACS.

      Mae CGA yn annog ysgolion i dderbyn cyllid drwy system BACS. Am gyngor pellach yn hyn o beth, dylech gysylltu â CGA yn uniongyrchol. Lle bydd ysgolion eisoes yn derbyn taliad drwy BACS mae'n rhaid i'r ysgol hysbysu CGA ar unwaith ac yn ysgrifenedig o unrhyw newidiadau i'w manylion banc.

- Ni fydd CGA yn rhyddhau taliad i gyfrifon cronfeydd preifat ysgolion.

- Pan wneir/anfonir taliadau'n uniongyrchol i ysgolion ni ddylid gwneud taliadau i gyfrif cronfa breifat yr ysgol.

- Ni fydd CGA yn rhyddhau taliadau'n uniongyrchol i athrawon.

4.4.2 Amgylchiadau pan NA CHAIFF cyllid ei ryddhau i ysgolion

- Ni fydd CGA yn rhyddhau cyllid i ysgolion os nad yw terfynau amser ar gyfer cyflwyno gwybodaeth yn cael eu bodloni.

- Ni fydd CGA yn rhyddhau cyllid i ysgolion pan nad yw'r athro yn bodloni'r cymwysterau meini prawf i ymgymryd â sefydlu.

- **Cofrestru gyda CGA**

  Mae'n bwysig nodi bod un o'r cymwysterau meini prawf yn ymwneud â chofrestru gyda CGA - o dan Reoliadau Cyngor y Gweithlu Addysg (Prif Swyddogaethau) (Cymru) 2015, mae'n rhaid i bob athro ysgol cymwysedig sy'n cyflawni "gwaith penodedig" athro mewn ysgol a gynhelir fod wedi'i gofrestru gyda Chyngor y Gweithlu Addysg.

  Ar y cyflogwr mae'r cyfrifoldeb cyfreithiol i sicrhau mai athrawon ysgol cofrestredig yn unig sy'n cael eu cyflogi mewn swyddi o'r fath.

  Os yw cyflogwr yn parhau'n fwriadol i gyflogi athro ysgol cymwysedig sydd heb ei gofrestru mewn swydd sy'n cynnwys "gwaith penodedig" athro, mae gan Lywodraeth Cymru rymoedd i gyhoeddi cyfarwyddyd i gyflogwr gydymffurfio â'i ddyletswydd statudol.

  O ganlyniad uniongyrchol, ni chaiff unrhyw gyfnodau sefydlu a gwblheir tra bod yr ANG heb gofrestru gyda CGA yn y categori athro ysgol eu cyllido ac ni fyddant yn cyfrif tuag at sefydlu'r ANG.

5. Sefydlu ar gyfer athrawon cyflenwi byrdymor

5.1 Cefndir yr adran hon

Dim ond i ANG sy'n cwblhau sefydlu tra'n ymgymryd â gwaith cyflenwi byrdymor mae'r adran hon yn berthnasol. Os daw cyfnod cyflenwi byrdymor yn drefniant rheolaidd neu'n drefniant tymor hwy, ni waeth a yw'r gyflogaeth yn gyflogaeth ran-amser, bydd angen cwblhau'r camau yn adran 4.0.

Mae'r adran hon yn darparu gwybodaeth gam wrth gam i sicrhau:

- y cedwir cofnod canolog o sesiynau a gwblheir gan ANG sy'n ymgymryd â sefydlu tra'n gweithio fel athrawon cyflenwi byrdymor;
- bod gwiriwr allanol yn cael ei neilltuo i gefnogi'r ANG;
- bod pob parti'n gallu cyrchu proffil sefydlu ar-lein yr ANG.

Mae pob cam yn dynodi:

- y corff a/neu'r unigolyn sy'n gyfrifol am y cam;
- y camau gweithredu y mae'n rhaid eu cwblhau, gan gynnwys cwblhau a chyflwyno'r ddogfennaeth angenrheidiol;
- y terfyn amser ar gyfer cwblhau'r cam, os yn briodol;
- manylion y corff y dylid anfon unrhyw waith papur neu wybodaeth ato, os yn briodol;
- gwybodaeth bwysig arall mewn perthynas â'r cam, os yn briodol.

Mae camau 1, 4, 5 a 7 yn ymwneud yn benodol â cham ar gyfer yr ANG; os yw'r ANG yn methu â chwblhau'r camau hyn o fewn y terfynau amser penodedig ni fydd CGA yn gallu:

- i weithio gyda'r consortiwm i neilltuo gwiriwr allanol;

- cynnal cofnod cywir o'r sesiynau sefydlu a gwblhawyd, a allai, yn ei dro, gael effaith andwyol ar raglen sefydlu'r ANG.

5.2 Y Camau

Cam 1	**Hysbysiad cychwynnol**
Corff/unigolion sy'n gyfrifol	Yr ANG
Pa gamau?	Cwblhau'r canlynol: **Ffurflen Hysbysu Sefydlu fel Athro Cyflenwi Byrdymor**
Erbyn pryd?	Unwaith mae'n hysbys y byddwch yn ymgymryd â sefydlu fel athro cyflenwi byrdymor ond o fewn 10 diwrnod gwaith o ddechrau cyfnod sefydlu ar yr hwyraf.

I ble?	Tîm Datblygiad Proffesiynol a Chyllid CGA Gellir dychwelyd y ffurflen drwy'r post, ffacs neu e-bost i datblygiadproffesiynol@cga.cymru
Gwybodaeth bwysig arall	Os ydych yn cwblhau eich cyfnod sefydlu yn ei gyfanrwydd (380 sesiwn) drwy'r llwybr athro cyflenwi byrdymor heb unrhyw hoe o'r proffesiwn neu heb newid i gwblhau sefydlu tra mewn cyflogaeth reolaidd (gweler adran 4.0), dim ond unwaith y bydd angen cwblhau Cam 1. Os cymerwch hoe o'r proffesiwn neu'n newid rhwng cwblhau sefydlu tra mewn cyflogaeth reolaidd a chwblhau sefydlu tra'n ymgymryd â gwaith cyflenwi byrdymor, bydd angen cwblhau Cam 1 ar ddechrau pob cyfnod y byddwch yn dechrau/parhau sefydlu fel athro cyflenwi byrdymor.

Cam 2	**Gwiriadau cymhwystra**
Corff/unigolion sy'n gyfrifol	Y CGA
Pa gamau?	Ar dderbyn **Ffurflen Hysbysu Sefydlu fel Athro Cyflenwi Byrdymor:** • Gwirio bod yr ANG yn ateb y cymwysterau meini prawf ar gyfer sefydlu fel a ganlyn: **Rhaid i'r ANG:** • feddu ar Statws Athro Cymwysedig (SAC); • fod wedi'i gofrestru gyda CGA yn y categori athro ysgol; • peidio â bod wedi'i eithrio rhag y gofyniad i gwblhau sefydlu neu beidio â bod wedi cwblhau sefydlu'n barod.
I ble?	Tîm Datblygiad Proffesiynol a Chyllid CGA

Cam 3	Ar dderbyn Ffurflen Hysbysu Sefydlu fel Athro Cyflenwi Byrdymor
Corff/unigolion sy'n gyfrifol	Y consortiwm neu'r CGA ar gais y consortiwm
Pa gamau?	Dyrannu gwiriwr allanol i gefnogi'r ANG; bydd yr ANG yn cael gwybod am y dyraniad trwy eu cyfrif/cyfleuster CGA ar-lein.
Erbyn pryd?	Fel arfer o fewn 10 diwrnod gwaith o'r hysbysiad neu ar ôl derbyn cadarnhad gan y consortiwm

Cam 4	Hysbysu partïon perthnasol
Corff/unigolion sy'n gyfrifol	Y CGA
Pa gamau?	Yn anfon ymateb ysgrifenedig i'r ANG (drwy e -bost), yn cadarnhau: • canlyniad y gwiriadau cymhwystra; • y camau y mae angen i'r ANG eu cymryd i gofnodi ei sesiynau trwy'r cyfleuster ar y we; • y camau y mae angen i'r ANG eu cymryd i gyrchu/mewngofnodi i'w broffil sefydlu statudol ar-lein cyn y gall unrhyw barti arall perthnasol gyrchu'r proffil sefydlu neu gyfrannu ato. Bydd CGA yn rhannu'r wybodaeth yma gyda'r: • ALl fel y corff priodol ym maes sefydlu. Dylid cyfeirio at adran 5.3, tudalen 16 am fwy o wybodaeth mewn perthynas â'r ffordd y bydd CGA yn cofnodi ac yn rhannu'r wybodaeth hon.
Erbyn pryd?	O fewn 25 diwrnod gwaith o dderbyn y Ffurflen Hysbysu Sefydlu fel Athro Cyflenwi Byrdymor.

Cam 5	Logio cyfnodau o gyflogaeth
Corff/unigolion sy'n gyfrifol	Yr ANG
Pa gamau?	Mae'n rhaid iddo gofnodi pob cyfnod cyflogaeth sy'n para sesiwn neu fwy gyda CGA gan ddefnyddio cyfleuster gwe CGA.

	Dylid cyfeirio at adran 5.3, tudalen 16 am fwy o wybodaeth mewn perthynas â'r ffordd y bydd CGA yn cofnodi ac yn rhannu'r wybodaeth hon.
Erbyn pryd?	O fewn 15 diwrnod gwaith ar ôl cwblhau'r cyfnod o gyflogaeth.
I ble?	Cyfleuster we y CGA www.cga.cymru
Gwybodaeth bwysig arall	Bydd CGA yn cynnal cofnod o nifer y sesiynau a gwblhawyd gan ANGau tuag at eu sefydlu er mwyn cynorthwyo'r holl bartïon i gadw golwg ar y wybodaeth hon. Mae'n bwysig nodi, fodd bynnag, ei bod yn ofynnol i ANGau gadw cofnod wedi'i ddilysu o'u sesiynau sefydlu cyflenwi byrdymor yn Adran 4 y proffil sefydlu (y dylid ei chynnal all-lein a'i lanlwytho i'r proffil ar-lein yn unol â'r amserlenni gofynnol).

Cam 6	**Cofnodi gwybodaeth**
Corff/unigolion sy'n gyfrifol	Y CGA
Pa gamau?	Bydd yn diweddaru'r adran sefydlu yng nghofnod yr ANG ar y Gofrestr Ymarferwyr Addysg gyda'r sesiynau a gofnodwyd.
Erbyn pryd?	Fel arfer erbyn diwedd y diwrnod gwaith nesaf.

Cam 7 - ar ôl i'r athro gwblhau tri thymor neu 380 sesiwn o sefydlu	**Hysbysu o ganlyniad y sefydlu**
Corff/unigolion sy'n gyfrifol	Gwaith y corff priodol
Pa gamau?	Gwneud y penderfyniad terfynol ynghylch a yw'r ANG wedi llwyddo, methu neu a oes angen ymestyn ei gyfnod sefydlu ar sail yr wybodaeth/tystiolaeth a gofnodwyd ar ei broffil sefydlu. Hysbysu CGA o ganlyniad y sefydlu.
Erbyn pryd?	

	Mae terfynau amser ar gyfer cwblhau'r camau gweithredu hyn wedi'u nodi yng nghylchlythyr arweiniad Llywodraeth Cymru sydd ar gael ar wefan Dysgu Cymru yn https://hwb.llyw.cymru. Noder: mae CGA yn gwneud cais ffurfiol i ganlyniadau sefydlu gael eu cyflwyno gan y corff priodol unwaith pob tymor academaidd; fodd bynnag, mae gan y corff priodol y cyfleuster i gyflwyno canlyniadau i CGA ar unrhyw adeg.

Cam 8	**Cofnodi gwybodaeth a chyhoeddi tystysgrif**
Corff/unigolion sy'n gyfrifol	Gwaith CGA
Pa gamau?	Diweddaru cofnod yr ANG ar y Gofrestr Ymarferwyr Addysg gyda chanlyniad y sefydlu ac os yn briodol, cyhoeddi tystysgrif sefydlu i'r ANG i'r cyfeiriad post a gofnodwyd. Dylid cyfeirio at adran 5.3, tudalen 16 am fwy o wybodaeth mewn perthynas â'r ffordd y bydd CGA yn cofnodi ac yn rhannu'r wybodaeth hon.
Erbyn pryd?	O fewn 25 diwrnod i dderbyn canlyniad y sefydlu gan y corff priodol.

5.3 Cyfleuster sefydlu CGA ar y we gan gynnwys y proffil sefydlu statudol

Fel y nodir yn arweiniad Llywodraeth Cymru ar gyfer sefydlu mae nifer o bartïon yn gysylltiedig â rhaglen sefydlu'r ANG. Mae angen i'r partïon hyn weld a chyfnewid gwybodaeth benodol mewn perthynas â sefydlu'r ANG. Bydd y wybodaeth yn cael ei ddeillio o'r manylion a gofnodwyd ar y:

- Ffurflen Hysbysu Sefydlu;
- Ffurflen Hawlio Cyllid Sefydlu;
- Ffurflen Hysbysu Sefydlu fel Athro Cyflenwi Byrdymor;
- Sesiynau cyflenwi byr dymor wedi'u logio drwy gyfleuster we y CGA.

Yn ogystal, mae manylion y gwiriwr allanol a neilltuwyd i gefnogi'r ANG a phroffil sefydlu statudol yr ANG (a chofnod gwiriwr allanol os yn berthnasol) ar gael drwy fynediad ar-lein.

Mae CGA yn darparu cyfleuster ar y we sy'n galluogi'r wybodaeth hon i gael ei chynnal a'i storio'n ddiogel ar-lein. Ar gyfer ANG a ddechreuodd sefydlu o fis Medi 2014 ymlaen mae'r cyfleuster hwn yn cynnwys y proffil sefydlu statudol ar-lein (a chofnod y gwiriwr allanol).

Gyda'r awdurdod priodol, caiff yr ANG, mentor sefydlu a gwiriwr allanol yr ANG a'r corff priodol fynediad diogel i'r cyfleuster hwn. Mae hyn yn golygu, ar gyfer ANG a ddechreuodd sefydlu o fis Medi 2014 ymlaen na fydd gofyn e-bostio na phostio rhannau perthnasol y proffil sefydlu at y corff priodol.

Caiff manylion ynghylch sut i gyrchu'r cyfleuster hwn eu darparu o fewn y gydnabyddiaeth ysgrifenedig at yr ANG ar ôl derbyn yr hysbysiad sefydlu cychwynnol; fel arall mae'r wybodaeth hon ar gael ar adran sefydlu gwefan CGA.

Mae'n bwysig nodi'r canlynol mewn perthynas â'r wybodaeth y gellir ei chyrchu drwy wasanaethau ar-lein CGA :

- mae'r ffurflenni ar gyfer cyrchu cyllid sefydlu (y Ffurflen Hysbysu Sefydlu a'r Ffurflen Hawlio Cyllid Sefydlu) yn gyfan gwbl ar wahân i'r dogfennau a gedwir yn y proffil sefydlu ar-lein ac, ar hyn o bryd, ni ellir cyflwyno'r ddogfennaeth gyllid i CGA drwy ei gyfleuster ar y we;

- mae CGA yn cadw cofnod o nifer y sesiynau a gwblhawyd gan ANG tuag at eu sefydlu er mwyn cynorthwyo'r holl bartïon i allu olrhain yr wybodaeth hon. Mae'n bwysig nodi, fodd bynnag, nad yw'r wybodaeth am sesiynau cyflenwi byrdymor a gofnodir gan CGA wedi'i gwirio. Mae gofyn i ANG gadw cofnod wedi'i wirio o'u sesiynau cyflenwi byrdymor yn adran '**cofnod o bresenoldeb'** o'r proffil sefydlu (y dylid ei gynnal oddi ar-lein a'i lwytho i'r proffil ar-lein yn unol â'r terfynau amser gofynnol). Mae'r wybodaeth sesiynau a gofnodwyd gan yr ysgol ac wedi ei gyflwyno i'r CGA ar y Ffurflen Hawlio Cyllid Sefydlu unwaith y tymor academaidd yn cael eu gwirio gan y Pennaeth wrth iddynt lofnodi'r datgan ar y ffurflen ac nad oes angen eu cofnodi yn y proffil sefydlu.

- CGA sydd wedi datblygu'r proffil sefydlu ar-lein a CGA sy'n ei gynnal. Dylid cyfeirio unrhyw broblemau neu anawsterau a geir neu unrhyw adborth gan ddefnyddwyr mewn perthynas â gwelliannau i'r proffil sefydlu ar-lein at datblygiadproffesiynol@cga.cymru. Fodd bynnag, ni all CGA gynnig arweiniad na chyngor am gynnwys gofynnol y proffil sefydlu ar-lein; dylid cyfeirio ymholiadau o'r fath yn y lle cyntaf at y mentor sefydlu, y gwiriwr allanol neu'r cydlynydd sefydlu yn y corff priodol;

- gellir dod o hyd i arweiniad ar gyfer defnyddio'r cyfleuster hwn yn y tudalennau sy'n ategu'r proffil sefydlu ar-lein ac felly, dylid darllen y testun sy'n atodi pob un o'r tudalennau hyn yn drylwyr wrth ei ddefnyddio a chyn cwblhau neu derfynu unrhyw rai o'r dogfennau.

6. Cysylltiadau defnyddiol

Ar gyfer ymholiadau mewn perthynas â'r ddogfen hon cysylltwch â:

Tîm Datblygiad Proffesiynol a Chyllid CGA
Cyngor y Gweithlu Addysg (CGA)
9fed Llawr
Tŷ Eastgate
35-43 Ffordd Casnewydd
Caerdydd
CF24 0AB

Ffôn: 029 20460099
Ffacs: 029 20475850
E-bost: datblygiadproffesiynol@cga.cymru
Gwefan: www.cga.cymru

Ar gyfer ymholiadau cyffredinol mewn perthynas â sefydlu, cysylltwch â:

Y Tîm Sefydlu
Is-adran Gwella Dysgu a Datblygiad Proffesiynol
Llywodraeth Cymru
Parc Cathays
Caerdydd
CF10 3NQ

Ffôn: 029 20801389
Ffacs: 029 20826109
E-bost: inductioninfo@cymru.gsi.gov.uk

Ar gyfer ymholiadau mewn perthynas â chyfnod sefydlu athro penodol cysylltwch â:

Y Cydlynydd Sefydlu yn eich ALl (sef y corff priodol ym maes sefydlu) (mae rhestr o'r cydlynwyr sefydlu ar gael ar wefan CGA)

Ar gyfer ymholiadau mewn perthynas â chofrestru gyda CGA cysylltwch â:

Y Tîm Cymwysterau a Chofrestru
Cyngor y Gweithlu Addysg
9fed Llawr
Tŷ Eastgate
35-43 Ffordd Casnewydd
Caerdydd
CF24 0AB

Ffôn: 029 2046 0099
Ffacs: 029 2047 5850
E-bost: cofrestru@cga.cymru
Gwefan: www.cga.cymru